



Cefndir

Roedd y teulu Wartski yn fân-werthwyr entrepreneuriaidd enwog oedd yn gwerthu gemwaith, creiriau, celf a ffasiwn ym Mangor, gogledd Cymru. Roedd y teulu wedi ymgartrefu yno ac wedi sefydlu'r busnes gemwaith yn hwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Morris Wartski a'i deulu yn Iddewon Pwylaidd oedd wedi ffoi i Brydain i osgoi erledigaeth gwrth-Semitaidd gan y Rwsiaid. Ar ôl dechrau yn pedlera, agorodd Morris Wartski ei siop gyntaf yn 21 Stryd Fawr Bangor. Roedd y siop yn gwerthu gemwaith a dillad, a bu mor llwyddiannus nes y tyfodd y busnes i'r fath raddau fel y bu'n rhaid symud eiddo i 196, 198 a 200 Stryd Fawr Bangor.

Erbyn 1907, roedd dwy siop ychwanegol wedi'u sefydlu ar Stryd Mostyn yn nhref glan y môr Llandudno. Bu i fusnes y teulu Wartski elwa'n fawr o gwsmeriaeth unigolion cefnog megis y Brenin Edward VII a 5ed Marcwis Môn. Câi ef ei adnabod fel y '*Dancing Marquess*', ac roedd yn enwog am ei chwaeth ddrud. Dywed hanes wrthym bod y Marcwis wedi cynnig lifft yn ei gerbyd i Morris Wartski a'i fod wedi awgrymu wrtho pe byddai'n sefydlu siop yng ngogledd Cymru, yna y byddai'n prynu ganddo. Yn 1905, bu farw'r Marcwis yn fethdalwr ag yntau ond yn 29 oed. Bu ond y dim i'w ddyledion lusgo'r cwmni Wartski i drychineb ariannol.

Wartski Llundain

Yn 1911, agorwyd trydydd cangen o Wartski yn Llundain gan Emanuel Snowman, mab-yng-nghyfraith Morris Wartski, a dechreuodd y cwmni gyswilt hirhoedlog â gwaith Carl Fabergé. Roedd gan Snowman y weledigaeth i brynu henebion gwerthfawr o adran y Llywodraeth Sofietaidd, a adwaenid fel yr Antiquariat, rhwng 1927 a 1933. Roedd eitemau gwerthfawr wedi cael eu hatafael dan y drefn Gomiwnyddol er mwyn eu gwerthu i godi arian i brynu offer a pheiriannau. Prynodd Snowman nifer o gampweithiau gan Carl Fabergé, ac yn eu mysg roedd dwsin o'r Wyau Pasg Ymerodrol (*'Imperial Easter Eggs'*) sydd bellach yn fyd-enwog.

Ar y pryd, fe brynodd yr wyau am oddeutu £400 i £600. Bellach, mae pob wy yn werth oddeutu £30m. Ar ôl hynny, daeth y Frenhines Mary a George V yn gwsmeriaid triw i Wartski yn Llundain, ac fe brynodd y ddau yr Wy Colonnade enwog.

Comisiynwyd Fabergé gan yr Ymerawdwyr Alexander III a Nicholas II o 1885 hyd 1916. Roedd pob wy yn grefftwaith cain ac yn cymryd dros flwyddyn i'w gynhyrchu. I gyd, crëwyd 50 o wyau. Ar ôl Chwyldro Rwsia, aeth 42 o'r wyau ymerodrol i gasgliadau preifat ac amgueddfeydd. Credid bod wyth, gan gynnwys y Trydydd Wy Ymerodrol, wedi cael eu colli. Darganfuwyd y Trydydd Wy Pasg Ymerodrol yn ddiweddar pan sylweddolodd gwerthwr metel sgrap oedd â'r wy yn ei feddiant, y gallai fod yn werthfawr ar ôl iddo ddarllen erthygl mewn papur newydd. Yn ddiweddarach, cafodd yr wy hwn ei arddangos yn Wartski's of London ym mis Ebrill 2014, dros 112 mlynedd ar ôl iddo gael ei weld ddiwethaf gan y cyhoedd. Credir bod dau arall wedi goroesi, er bod eu lleoliad yn parhau i fod yn ddirgelwch. Cafodd un wy, a adwaenir fel yr Wy Nécessaire ei arddangos yn yr arddangosfa Orllewinol gyntaf erioed o waith Fabergé yn unig, yn siop Wartski yn Regent Street ym mis Tachwedd 1949. Yna, dair blynedd yn ddiweddarach ar 19 Mehefin 1952, cafodd ei werthu i brynwr sydd wedi cael ei enwi yn '*A Stranger*' yn eu cyfriflyfr, a hynny am £1250. Ni wyddys lle'r aeth yr wy hwnnw ar ôl iddo adael eiddo Wartski.

Dros y blynyddoedd, mae cwsmeriaid Wartski wedi cynnwys pobl fwyaf cyfoethog ac enwog yr oes. Roedd Arlywydd UDA John Fitzgerald Kennedy, Yul Brynner, Bing Crosby a Frank Sinatra oll yn gwsmeriaid i Wartski.

Yn 2011, Wartski of Llandudno greodd y fodrwy ar gyfer priodas y Tywysog William a Catherine Middleton, a hwy hefyd greodd y fodrwy ar gyfer ail briodas y Tywysog Charles. Derbyniodd Nicholas Snowman OBE, gor-wŷr Morris Wartski a chadeirydd Wartski's, Gymrodoriaeth Anrhydeddus gan Brifysgol Bangor yn 2015.



Teulu Wartski

Isidore Wartski

Roedd mab Morris, Isidore (trydydd o'r dde), hefyd yn ŵr busnes llwyddiannus a bu'n gyfrifol am ehangu busnes dillad ei dad, ynghyd â gweithio ar ddatblygu'r Castle Hotel ym Mangor.

Roedd Isidore yn ffigwr poblogaidd ym Mangor ac roedd yn noddi nifer o sefydliadau chwaraeon ac elusennol lleol.

Ar ôl 15 mlynedd yn gwasanaethu ar y Cyngor Tref, fe'i penodwyd yn Faer Bangor yn 1939 ac ef oedd y Maer Iddewig cyntaf yng Nghymru. Fel Maer y dref yn ystod y rhyfel, roedd Isidore Wartski yn gyfrifol am gynorthwyo â'r trefniadau i ail-gartrefu faciwîs ym Mangor. Yn ddiweddarach, derbyniodd dancard fel rhodd i ddiolch iddo am ei holl ymdrechion yn ystod y cyfnod hwn.



Cyfeiriadau:

<http://www.itrails.org.uk/trails/bangor/places-of-interest#pc2328>

www.wartski.com

<https://wartski.com/a-film-of-wartskis-1949-faberge-exhibition/>

<https://fabergeresearch.com/eggs-recent-discoveries/>